



Teithio Seneddol – Gwrthbwysu Carbon

20 Medi 2022

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Awst, pan wnaethoch ofyn:

To whom it may concern,

I am writing to you to ask for your advice on Parliamentary travel, more specifically, carbon-offsetting of expensed domestic air travel.

Glasgow hosted COP26 last autumn, and the governments in Westminster, Holyrood and Cardiff Bay all want to reduce government carbon emissions to net zero by the end of the decade. Whilst the target varies, this is a policy broadly agreed on by every party in these three houses - however, I understand your remit is only MSs in the Senedd.

- 1. Can you tell me what requirements there are to ensure that any taxpayer expensed domestic (and/or international) flights are carbon offset? Is this something that is dealt with by the Senedd or is this a responsibility of the individual MS or their party?*

If there is no requirement to carbon offset expensed domestic (and/or international) flights, would this be something you could raise with the government to ensure there are changes going forward?

- 2. As a further question, is there any mechanism that ensures that MSs are only using/expensing domestic flights as a last resort? i.e. I understand Northern Irish MPs and AMs would have to fly as a ferry service would be too slow and cumbersome, but should MSs not have to ensure there is no alternative train service before taking a domestic flight?*

Gweler ein hymateb isod.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

1. *Can you tell me what requirements there are to ensure that any taxpayer expensed domestic (and/or international) flights are carbon offset? Is this something that is dealt with by the Senedd or is this a responsibility of the individual MS or their party?*

Mae'r darpariaethau i Aelodau hawlio costau sy'n ymwneud â theithio wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod a ariennir drwy'r penderfyniad yn cael eu gwneud gan y **Bwrdd Taliadau Annibynnol** ac wedi'u cyhoeddi yn y **Penderfyniad** (yn benodol Pennod 5 – Siwrneiau'r Aelodau).

Nid oes unrhyw ofynion ar gyfer gwrthbwysu yn erbyn teithiau hedfan ac nid oes unrhyw ddarpariaethau i'r Aelodau hawlio costau sy'n ymwneud â gwrthbwysu carbon.

Mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am goladu ac adrodd yn gyhoeddus ar ddata carbon ar gyfer yr Aelodau (mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelodau, yn hytrach nag unrhyw waith y Llywodraeth fel Gweinidogion), yn ogystal â Staff Cymorth yr Aelodau a staff Comisiwn y Senedd. Rydym yn adrodd ar ddata o'r fath yn adran Cynaliadwyedd (tudalen 95) yr **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**, yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol **Cynaliadwyedd**, sydd ill dau ar gael ar ein gwefan.

Hefyd, ar ein gwefan mae ein **Strategaeth Carbon Niwtral**, sy'n rhoi manylion y mesurau yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni *carbon niwtral net* erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys elfen wrthbwysu, dim ond fel opsiwn olaf. Unwaith y bydd allyriadau gweithredol wedi'u lleihau i'w lefelau isaf posibl, byddwn yn ceisio gwrthbwysu carbon gweddilliol o 2030 ymlaen.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

2. *As a further question, is there any mechanism that ensures that MSs are only using/expensing domestic flights as a last resort? i.e. I understand Northern Irish MPs and AMs would have to fly as a ferry service would be too slow and cumbersome, but should MSs not have to ensure there is no alternative train service before taking a domestic flight?*

Mae Adran 1.3.8. o'r **Penderfyniad** yn datgan "Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a ysgwyddir yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr, mai dyna'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael..."

Eto, gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF